



Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23



Mae cyfiawnder yn bwysig

Rhagair



Syr Richard Broadbent

Cadeirydd Annibynnol
Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

Rwy'n falch iawn o gael fy ngwahodd i ymgymryd â swydd Cadeirydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF.

Mae'r Gwasanaeth yn cyflawni rôl hanfodol ond cymhleth i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl yn y wlad hon. Mae'n gonglfaen ar gyfer y Llywodraeth a'r Farnwriaeth, gan wasanaethu'r ddau hyd eithaf ei allu.

Fel cymaint o wasanaethau eraill, creodd pandemig COVID-19 heriau digynsail sy'n parhau hyd yn oed nawr, ac fel gyda bron pob rhan arall o'r economi, rhaid hefyd fynd i'r afael â'r disgwyliad cynyddol o ddarparu gwasanaethau digidol cost isel a chyflym. Mae hon yn agenda pwysig ar gyfer y blynyddoedd nesaf a bydd y Bwrdd yn ceisio ei symud ymlaen cyn gynted â phosibl.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Richard Broadbent'.

Syr Richard Broadbent
Cadeirydd Annibynnol
Bwrdd Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF



Nick Goodwin

Prif Swyddog Gweithredol

Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EF

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gwnaethom barhau i ddarparu ein gwasanaethau mewn amgylchiadau heriol. Roedd adfer gwasanaethau yn dilyn effaith pandemig COVID-19 yn parhau i fod yn flaenoriaeth, wrth inni lywio camau olaf ein Rhaglen Ddiwygio o foderneiddio yn cynnwys addasu i ffyrdd newydd o weithio ochr yn ochr â pharhau i feithrin gwytnwch..

Bu'n rhaid i ni arloesi a rheoli cyllidebau yn ofalus i ddelio ag ystod o bwysau eraill gan gynnwys cynnydd mewn chwyddiant, gweithredu diwydiannol a thywydd garw. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd ond gwerth chweil i bawb sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, ac mae pob un ohonynt wedi ennill fy edmygedd a hoffwn ddiolch iddynt o waelod calon.

Mae staff GLITEF, y farnwriaeth, ein partneriaid cyfiawnder, defnyddwyr llysoedd proffesiynol a llawer o rai eraill wedi parhau i fynd y filltir ychwanegol, gan roi popeth i fodloni gofynion parhaus.

Heb os, bydd gan y flwyddyn ariannol nesaf ei heriau ei hun, ond dylem fynd i'r afael â nhw gyda hyder gan wybod beth gyflawnwyd gan ein pobl a'n partneriaid dros y 12 mis diwethaf.

Mae nifer y treialon a restrwyd ac a gwblhawyd yn y llysoedd troseddol yn uwch nag yr ydym wedi'i weld ers sawl blwyddyn. Mae'r gyfradd o dreialon effeithiol yn erbyn treialon aneffeithiol yn parhau i wella ac mae'r disgwyliadau o ran diwrnodau eistedd mewn lle da. Dechreuon ni ddarparu sylwadau barnwyr wrth iddynt osod dedfrydau mewn rhai achosion Llys y Goron, gan ddechrau gyda'r Old Bailey, mewn cam trawsnewidiol ar gyfer cyfiawnder agored. Creodd Llys y Goron Croydon hanes pan lwyddodd rheithiwr byddar i wasanaethu mewn treial am y tro cyntaf gyda chymorth dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain. Ac er bod ystad y llys yn parhau i fod yn gymhleth, rydym wedi gwneud cynnydd o ran caffael ac adeiladu cyfleusterau newydd i wella gwytnwch yr ystad a chynnal capasiti'r llys.

Mae'r cynnydd hwn yn parhau i gael ei ategu gan ein Rhaglen Ddiwygio. Mae diwygio'n cael effaith sylweddol ar y cyhoedd, gyda gwasanaethau digidol yn cael eu defnyddio dros 2.1 miliwn o weithiau hyd yn hyn, gan wneud gwasanaethau'r llysoedd a'r triwilysoedd yn haws i'w defnyddio ac yn fwy effeithlon i'w cynnal. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni gweledigaeth y rhaglen ddiwygio, gan addasu cwrmpas ac amserlenni rhai gwasanaethau yn ddiweddar. Byddwn nawr yn rhoi gwasanaethau sifil, teulu a thriwilysoedd ar waith erbyn mis Mawrth 2024, a gwasanaethau troseddol erbyn mis Mawrth 2025. Trwy wrando ar adborth a gwneud y penderfyniadau hyn, bydd yn caniatáu mwy o amser – yn enwedig yn ein diwygiadau mwyaf allweddol a mwyaf heriol – i'n staff a'n partneriaid ddatblygu, addasu a rhoi'r gwasanaethau ar waith.

Yn olaf, rwy'n falch iawn o groesawu Syr Richard Broadbent i'r sefydliad yn ei rôl fel cadeirydd Bwrdd GLITEF. Mae Syr Richard yn dilyn cyfnod Tim Parker a adawodd ym mis Rhagfyr 2022, a Victoria Cochrane a wnaeth ymgymryd â'r rôl dros dro. Rwy'n hynod ddiolchgar i Tim a Victoria am yr arbenigedd a ddaethant i'r rôl a hoffwn ddymunog orau i Tim i'r dyfodol.

Nick Goodwin
Prif Weithredwr a Swyddog
Cyfrifyddu

1.2 Trosolwg

Mae'r trosolwg yn crynhoi gwybodaeth am ein sefydliad, gan gynnwys ein pwrpas, sut rydym wedi'n strwythuro, y prif risgiau i gyflawni ein hamcanion, a chrynodeb o sut rydym wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach am ein perfformiad o dudalen 10 ymlaen.

1.2.1 Ynglŷn â GLITEF

Rydym yn asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ). Ein nod yw cynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol sy'n cynnal rheolaeth y gyfraith ac sy'n darparu mynediad at gyfiawnder i bawb. Rydym yn gyfrifol am weinyddu llysoedd troseddol, sifil a theulu a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â thribiwnlysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn gweithredu yn unol â'n dogfen Fframwaith1 gyhoeddedig sy'n nodi sail partneriaeth weithredol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder), yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Ein rôl a'n cyfrifoldebau

Mae ein system gyfiawnder yn amddiffyn hawliau a rhyddid sylfaenol y cyhoedd. Mae'n gonglfaen i'n cymdeithas ac mae gennym gyfrifoldeb i weinyddu system gyfiawnder sy'n hygyrch i bawb ac sy'n gweithredu'n effeithlon. Mae'r rhai sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ein gwasanaethau yn cynnwys:

- dioddefwyr a thystion troseddau
- y rhai sydd wedi'u cyhuddo o gamymddwyn troseddol
- plant a phobl eraill sydd angen eu hamddiffyn
- teuluoedd yr effeithir arnynt gan berthynas yn chwalu
- aelodau o'r cyhoedd sy'n herio penderfyniadau'r wladwriaeth
- pobl a busnesau sydd angen mynnu eu hawliau mewn anghydfodau sifil neu fasnachol

Gyda'n gilydd rydym yn:




darparu'r weinyddiaeth ategol ar gyfer system llysoedd a thribiwnlysoedd teg, effeithlon a hygyrch




cydweithio'n effeithiol â sefydliadau ac asiantaethau cyfiawnder eraill, gan gynnwys y proffesiynau cyfreithiol, i wella mynediad at gyfiawnder



cefnogi barnwriaeth annibynnol wrth weinyddu cyfiawnder



gweithio gydag adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth i wella ansawdd ac amseroldeb eu penderfyniadau, a fydd yn lleihau nifer yr achosion sy'n dod gerbron y llysoedd a'r tribiwnlysoedd



gwneud gwelliannau ar draws pob awdurdodaeth o ran gweinyddu'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd

Gallwch ddarganfod mwy am ein gwaith yn www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service.

Ein strwythur

Mae gennym 19,000 o aelodau staff, y mae 90% ohonynt yn gweithio ar y rheng flaen yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd ac yn ein Canolfannau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (CTSCs). Gallwch ddod o hyd i fanylion am gyfansoddiad ein gweithlu o dudalen 51 ymlaen.

Mae ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban ac yn cael eu rheoli gan gyfarwyddwyr cyflawni rhanbarthol. Mae gennym 333 o adeiladau a 19 o safleoedd gweinyddol, gan gynnwys 5 CTSC (y man cyswllt cyntaf ar gyfer aelodau'r cyhoedd sydd eisiau mwy o wybodaeth am eu gwrandawriad). Gellir dod o hyd i fanylion lleoliadau unigol yn www.find-court-tribunal.service.gov.uk.

Mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn ein llysoedd a'n tribiwnlysoedd yn cael eu cefnogi gan nifer o swyddogaethau pencadlys, sy'n cael eu cyflawni gan aelodau o'n uwch dîm rheoli. Gallwch ddod o hyd i fanylion ein strwythur llywodraethu a rheoli yn yr adran atebolrwydd o dudalen 31 ymlaen.

Bu dros 3.8 miliwn o achosion mewn llysoedd troseddol, sifil a theulu a thribiwnlysoedd yn ystod 2022-23. Cwblhawyd dros 2.3 miliwn o achosion ac mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r cyfraddau cwblhau ar draws ein hawdurdodaethau. Yn ogystal, cafodd 1.2 miliwn o achosion pellach eu setlo y tu allan i'r llys.



Llys Ynadon
1,284,838



Llys Sifil
248,202



Pob Llys Teulu
(yn cynnwys Profiant ac Ysgariad)
464,997



Llys y Goron
96,903



Pob Tribiwnlys
259,787

Ein hamcanion a'n blaenoriaethau strategol

Ein gweledigaeth ar gyfer 2025 yw chwarae rhan weithredol mewn system gyfiawnder sy'n arloesol a rhagweithiol, gan alluogi pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau i ddatrys eu problemau cyn gynted â phosibl. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu mynediad cyflym at gyfiawnder, un o'r nodau yng Nghynllun Cyflawni Canlyniadau'r MOJ. Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022-25 yn nodi sut byddem yn gwneud hynny drwy ein hamcanion strategol a'n prif flaenoriaethau.

Amlinellodd ein cynllun busnes ar gyfer 2022-23 y gweithgareddau y gwnaethom ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Y rhain yw:

- cefnogi ein pobl
- adfer a sefydlogi ein gwasanaethau
- diwygio a'i drosglwyddo i'n busnes craidd

Mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein gwerthoedd, sef Pwrpas, Dyngarwch, Bod yn Agored a Gyda'n Gilydd.

Gweledigaeth y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd

System llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n gyfiawn, yn gymesur ac yn hygyrch



Pwrpas GLITEF

Cynnal system llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol, sy'n cefnogi barnwriaeth annibynnol wrth weinyddu cyfiawnder - gan alluogi rheolaeth y gyfraith i gael ei chynnal, a darparu mynediad at gyfiawnder i bawb

Ein amcanion strategol




Gwneud prosesau'n syml i'r cyhoedd



Delio ag achosion cyn gynted â sy'n rhesymol



Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn gynhwysol



Meithrin gwyntwch



Lleihau costau

Metrigau

Sut rydyn ni'n gwybod ein bod ni'n cyflawni yn erbyn ein strategaeth—fel y'i nodir yn y Cynllun Busnes blynyddol a'r Cynllun Cyflawni Canlyniadau



Gweithgareddau

Beth rydyn ni'n ei wneud i – set out in the annual Business Plan

Ein meysydd ffocws blaenoriaeth

Pobl	Mewnwelediad	Arloesedd	Gwyntwch	Cydweithio
cael y bobl iawn, yn y lle iawn, gyda'r adnoddau a'r gefnogaeth gywir	ymgorffori diwylliant sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n rhoi mewnwelediad i'n gwasanaethau a'n defnyddwyr bod angen i ni wneud penderfyniadau parhaol cywir	gwella'n barhaus fel bod ein gwasanaethau y gorau y gallant fod a chynnal yr hyn y mae defnyddwyr ei angen ac yn ei ddisgwyl	gwella'n barhaus fel bod ein gwasanaethau y gorau y gallant fod a chynnal yr hyn y mae defnyddwyr ei angen ac yn ei ddisgwyl	gweithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y system gyfiawnder a thu hwnt i ddarparu'r gwasanaeth cyfiawnder gorau i'r cyhoedd

Ein gwerthoedd

Pwrpas

Mae cyfiawnder yn bwysig. Rydym yn falch o wneud gwahaniaeth i'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu.

Dyngarwch

Rydym yn trin eraill fel yr hoffem gael ein trin. Rydym yn gwerthfawrogi pawb, gan eu cefnogi a'u hannog i fod y gorau y gallant fod.

Bod yn agored

Rydym yn arloesi, yn rhannu ac yn dysgu. Rydym yn ddewr ac yn chwilfrydig, yn mynd ar drywydd syniadau yn ddi-baid i wella'r gwasanaethau a ddarparwn.

Gyda'n gilydd

Rydym yn gwrando, yn cydweithio ac yn cyfrannu, gan weithredu gyda'n gilydd at ein diben cyffredin.

Gallwch ddarllen crynodeb o'n perfformiad o dudalen 8 ymlaen. Ar gyfer manylion manylach, ewch i'r adran dadansoddi perfformiad.

Ein gwariant ariannol

Cost net cynnal ein sefydliad yn ystod 2022-23 oedd

£1.7 biliwn. O fewn y cyllid hwn, cafodd £1.5 biliwn ei gategoreiddio fel gwariant ar adnoddau a £0.2 biliwn fel gwariant cyfalaf. Gallwch ddod o hyd i ddadansoddiad manylach o'n gwariant yn yr Adolygiad Perfformiad Ariannol ar dudalen 10.

Ein prif risgiau

Mae ein Fframwaith Rheoli Risg yn dwyn ynghyd ein strategaeth risg a'n canllawiau ymarferol ar sut y dylid rheoli risgiau a materion ar bob lefel yn ein sefydliad.

Cafodd ein cofrestr risg gorfforaethol ei hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a'r prif risgiau a wynebwyd gennym oedd:

- adfer perfformiad a methiannau sylweddol o ran darparu gwasanaethau
- darparu amgylchedd gweithredu diogel
- cynnal diwylliant cadarnhaol i'n pobl yn y gweithle
- cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'n rhanddeiliaid
- gweithredu o fewn ein cyllideb
- Methiant TG o ganlyniad i ddefnyddio hen systemau a graddfa'r newid ar gyfer gwasanaethau TG newydd

Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am ein risgiau a'n materion, gan gynnwys y rheolaethau a roddwyd ar waith gennym i'w lliniaru, yn yr adran Atebolrwydd o dudalen 37 ymlaen.

1.2.2 Crynodeb o'n perfformiad

Caiff ein perfformiad ei fesur yn erbyn y blaenoriaethau a osodwyd gan Fwrdd GLITEF ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau yn ein cynllun busnes a sut maent yn berthnasol i'n blaenoriaethau a'n cofrestr risg gorfforaethol. Mae'n dangos enghreifftiau o'r hyn rydym wedi'i gyflawni a'r heriau a wynebwyd gennym yn ystod y flwyddyn. Gallwch ddarllen mwy am ein perfformiad o dudalen 10 ymlaen. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut y gwnaethom reoli ein risgiau o dudalen 10 ymlaen.

Dolen i'r blaenoriaethau	Pobl	Dealltwriaeth	Arloesedd	Gwydnwch	Cydweithio
--------------------------	------	---------------	-----------	----------	------------

Canlyniad a statws

Enghreifftiau o'r cynnydd a'r heriau a wynebwyd yn 2022-23

Thema: Cefnogi ein pobl

Cyflawni ac ymgorffori canlyniadau strategol ein Strategaeth Pobl a Diwylliant

Risg Gorfforaethol: Pobl

Pobl

Further details can be found on page 12

Er mwyn cefnogi'r broses o wreiddio newid yn GLITEF, rydym yn rhoi pecyn cymorth at ei gilydd gan gynnwys dolenni ar gyfer cymorth i weithwyr ac adnoddau lles, ac yn cynnal sesiynau ymgysylltu rheolaidd parhaus trwy weminarau wythnosol 'All Staff' a weminarau 'HR'. Mae ein gwasanaethau digidol diwygiedig yn gofyn am sgiliau gwahanol i sgiliau 'traddodiadol' ac fe wnaethom ddatblygu cyfres o ddeunyddiau dysgu i uwchsgilio ein pobl i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae cyflwyno'r rhaglen yn ystod cyfnod o newid sylweddol wedi bod yn heriol.

Theme: Recovery and stabilisation of our services

Enhance organisational capacity and resilience, reducing our open caseloads by as much as possible within our levers of control

Corporate risk: Recovery

Resilience

Mae rhagor o fanylion ar dudalen 12

Gwnaethom ganolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'n hystad a gwneud y mwyaf o gapasiti barnwrol i gynyddu nifer yr achosion a gwblhawyd. Mae prinder barnwyr cyflogedig a chynghorwyr cyfreithiol wedi bod yn heriol, ac yn ystod 2022-23 lanswyd ymgyrch recriwtio ar gyfer 950 o swyddi barnwrol. Cafodd 78 o gynghorwyr cyfreithiol eu recriwtio a'u derbyn yn y swydd. Gwnaethom greu'r gallu i farnwyr dynodedig wrando achosion yn rhithiol o unrhyw ranbarth daearyddol fel y gallem sicrhau bod adnoddau barnwrol ar gael o bell i gyfateb â'r llwyth gwaith.

Cafodd gweithredu diwydiannol effaith sylweddol ar nifer y gwrandawriadau a gynhaliwyd yn Llysoedd y Goron a Llysoedd Ynadon. Gwnaethom barhau i restru achosion fel y cyfarwyddwyd gan y farnwriaeth a buom yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lleol i leihau aflonyddwch lle bynnag y bo modd a sicrhau bod gan farnwyr yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i weithio trwy'r aflonyddwch.

Canlyniad a statws

Sicrhau bod ein hystad mor gydsyniol, gweithredol a chynaliadwy â phosibl. Cefnogi gweithrediadau i gyflawni hynny mor effeithlon, effeithiol a diogel â phosibl gydag iechyd a lles pobl wrth ei wraidd

Risg gorfforaethol: Diogelwch

Gwydnwch

Cydwethio

Mae rhagor o fanylion ar dudalen 15

Engbrefftau o'r cynnydd a'r heriau a wynebwyd yn 2022-23

Fe wnaethom gwblhau dros £76.7 miliwn o waith cyfalaf i ddatrys problemau sylfaenol gyda'n hystad. Fodd bynnag, mae ôl-groniad sylweddol o hyd ar gyfer gwaith cynnal a chadw a sicrhau offer newydd yn ein hadeiladau. Mae ein buddsoddiad yn canolbwyntio ar feysydd a fyddai fel arall yn effeithio ar gapasiti'r llys. Caiff buddsoddiad ei flaenoriaethu i leihau dirywiad pellach a chefnogi diogelwch adeiladau, bodloni gofynion statudol a diogelu parhad gwasanaeth. Yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid cau rhai adeiladau oherwydd materion cynnal a chadw.

Nid ydym wedi cyflawni ein Ymrwymadau Gwyrdd dros dro i'r Llywodraeth; fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r effaith ar yr amgylchedd wrth i ni ddarparu gwasanaethau llysoedd a thriwlysoedd, ac rydym wedi gwneud cynnydd.

Thema: Y rhaglen ddiwygio a'i throsglwyddiad i fusnes craidd

Gwella ein gallu i ddarparu a chynnal gwasanaethau digidol a thechnolegol rhagorol

Risgiau corfforaethol: Hen systemau; Gwasanaethau newydd

Arloesedd

Gwydnwch

Mae rhagor o fanylion ar dudalen 17

Fe wnaethom gynnal adolygiad o'n tîm gwasanaethau digidol mewnol i reoli ein gwasanaethau digidol yn well er mwyn monitro perfformiad a recriwtio adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, roedd rhai achlysuron lle nad oedd ein prif systemau ar gael.

Cawsom gymeradwyaeth gan Drysorlys EF am ein Rhaglen Decommissioning and Legacy Risk Mitigation (DLRM). Mae hon yn rhaglen gan y Llywodraeth i leihau

y risgiau sy'n gysylltiedig â'n hen systemau meddalwedd, caledwedd, a gwasanaethau cynnal a chadw; yn ogystal â sicrhau bod y cytundebau masnachol cywir ar waith i helpu'r broses o'u disodli a'u cefnogaeth barhaus.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i uwchraddio caledwedd a meddalwedd i liniaru risgiau cynnal a chadw, caledwedd a meddalwedd.

Gwella'r ffordd rydym yn casglu, cadw a choladu data. Datblygu diwylliant rhagweithiol gyda'r sgiliau dadansoddi cywir i ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel

Rydym wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu Platfform Data Strategol yn ôl yr amserlen. Mae hyn yn rhoi adnoddau modern i ni a fydd yn ein helpu i brosesu data yn gyflymach trwy awtomeiddio, diogelu ein data yn well, a'n galluogi i ddod o hyd i'r data sydd ei angen ar ein defnyddwyr a'i rannu yn gyflymach.

Rydym yn bwriadu cyflwyno gofynion riportio hanfodol gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd hon yn ystod y flwyddyn nesaf, ac yna byddwn yn symud i broses o welliant parhaus. Mae angen i ni barhau i weithio i sicrhau bod y mewnwelediad sydd ei angen ar ein staff gweithredol yn cael ei ddarparu iddynt.

Mewnwelediad

Mae rhagor o fanylion ar dudalen 17

Moderneiddio gweithdrefnau a seilwaith ein llysoedd a'n triwlysoedd; gwella profiad y defnyddiwr o'r system gyfiawnder sy'n addas ar gyfer yr oes fodern; gwneud y system yn fwy gwydn; meithrin gallu i reoli mwy o alw (h.y. trwy wasanaethau ar-lein); a chadw ein henw da fel arweinydd yn y system gyfiawnder

Risg corfforaethol: Gweithredu'r rhaglen ddiwygio

Arloesedd

Mae rhagor o fanylion ar dudalen 18

Mae ein Rhaglen Ddiwygio wedi parhau i ddarparu systemau newydd i foderneiddio ein gweithgareddau, er rydym ar ei hôl hi o ran lle gwnaethom gynllunio ar gyfer rhai o'n prif flaenoriaethau.

O ystyried heriau rhaglen mor uchelgeisiol a chymhleth, gwnaethom gynnal adolygiad manwl o'r gweithgareddau diwygio sy'n weddill a diwygio ein cynlluniau i adlewyrchu'r amgylchiadau newidiol a'r heriau parhaus. Gwnaethom flaenoriaethu cyflwyno gwaith i leihau oedi i'n defnyddwyr, gan barhau i sicrhau manteision y rhaglen ddiwygio a chefnogi ein pobl i gyflawni a gwreiddio newid. I wneud hyn, yn dilyn cytundeb gweinidogol, gwnaethom y penderfyniad i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r rhan fwyaf o'r rhaglen hyd at fis Mawrth 2024; estyniad o 3 mis gyda blwyddyn ychwanegol hyd at fis Mawrth 2025 ar gyfer y 2 gwasanaeth terfynol a gweithrediad y Platfform Cyffredin.



HM Courts & Tribunals Service

© Crown Copyright

Produced July 2023